# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Rhagfyr 2025

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.40 - 13.45)

### 4.1 SL(6)681 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

(Tudalennau 1 - 4)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-36-25 - Papur 23 - Adroddiad

LJC(6)-36-25 - Papur 24 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.45 - 13.50)

### 5.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

(Tudalen 5)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-36-25 - Papur 25 - Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru, 11 Rhagfyr 2025

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 6 Papurau i'w nodi

(13.50 - 13.55)

**6.3 Gohebiaeth at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**

(Tudalennau 6 - 8)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-36-25 - Papur 26 - Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 12 Rhagfyr 2025

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Atebolrwydd Swyddi Cyhoeddus: Adroddiad drafft

(14.05 - 14.15) (Tudalennau 9 - 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-36-25 - Papur 16 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

(14.15 - 14.20) (Tudalennau 34 - 44)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-36-25 - Papur 20 - Papur dull [Saesneg yn unig]

## 12 Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad drafft

(14.25 - 14.55) (Tudalennau 45 - 102)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-36-25 - Papur 22 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# SL(6)681 – Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio –

(a) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"),

(b) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 ("Gorchymyn 2001"), a

(c) Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008").

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol.

Mae adran 49(2) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn wedi eu nodi yn yr Atodlen i Orchymyn 2001.

Mae adran 50(2) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cod enghreifftiol o ran yr ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol wedi ei nodi yn yr Atodlen i Orchymyn 2008.

Mae adran 53(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru sefydlu pwyllgor safonau. Mae Rheoliadau 2001 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau safonau ac isbwyllgorau ynghyd â phenodiad, tymor swydd ac ailbenodiad aelodau annibynnol i bwyllgorau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio gofynion presennol y cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer awdurdodau perthnasol, er mwyn sicrhau bod ei ofynion yn cyd-fynd â'r nodweddion gwarchodedig a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a bennir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Gwneir gwelliannau tebyg i Orchymyn 2001, hefyd.

Mae'r Rheoliadau hyn, hefyd, yn dileu'r gwaharddiad am oes ar aelodau a chyflogeion blaenorol awdurdod perthnasol rhag eistedd fel aelodau annibynnol ar bwyllgor safonau'r awdurdod y cawsant eu hethol iddo o'r blaen, neu y buont yn gweithio iddo o'r blaen, neu bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforaethol y mae'r awdurdod perthnasol yn awdurdod cyfansoddol ohono, neu awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r newidiadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfnodau aros mewn perthynas â chyn-aelodau a swyddogion penodedig.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn y rhagair, yn yr ail baragraff, mae'n cyfeirio at "adrannau 49(5) a 50(5) **o'r Ddeddf**". Fodd bynnag, nid yw Deddf Llywodraeth Leol 2000 wedi'i diffinio fel "y Ddeddf" ym mharagraff blaenorol y rhagair. Felly, dylai naill ai nodi "**o'r Ddeddf honno**" yn y cyfeiriad yn yr ail baragraff, neu dylai fod diffiniad mewn cromfachau, "**("y Ddeddf")**", ar ôl y cyfeiriad cyntaf at Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ym mharagraff blaenorol y rhagair.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(2), cyfeirir at Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac at Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn y diffiniad newydd o "swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol" sydd wedi'i fewnosod yn rheoliad 2 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Fodd bynnag, mae'r ddwy Ddeddf hynny eisoes wedi'u diffinio fel "Deddf 1972" a "Deddf 2000" yn y drefn honno yn nhestun presennol rheoliad 2 o Reoliadau 2001. Dylid, felly, bod wedi defnyddio'r termau diffiniedig yn y diffiniad newydd wrth gyfeirio at y Deddfau hynny.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 4(a), mewnosodir diffiniad newydd o "nodweddion gwarchodedig" "yn y lle priodol" ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae sawl problem gyda'r dull hwn mewn perthynas â thestun Cymraeg presennol paragraff 1(1) o'r Atodlen i Orchymyn 2008. Nid oedd un o'r diffiniadau presennol, "eich awdurdod", wedi'i restru yn y lle cywir yn ôl trefn yr wyddor Gymraeg yn y testun gwreiddiol ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen i Orchymyn 2008. At hynny, ymddengys mai dim ond i destun Saesneg paragraffau 1(1) a 10(2)(a)(ix)(bb) o'r Atodlen i Orchymyn 2008 y mewnosodwyd y diffiniad presennol o 'gymdeithas gofrestredig' ("*registered society*") gan baragraff 21 o'r Atodlen i OS y DU 2014/1815. Mae'r diffiniad hwn, felly, ar goll o destun Cymraeg paragraff 1(1) o'r Atodlen i Orchymyn 2008 (a hefyd o baragraff 10(2)(a)(ix)(bb)). O ganlyniad, nid yw'r gwelliant a wnaed i baragraff 1(1) o'r Atodlen

i Orchymyn 2008 yn llwyddo'n llwyr oherwydd y diffiniad coll, a'r ffaith nad oedd yr holl ddiffiniadau presennol wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor yn y testun Cymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

**Pwynt craffu technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gellid bod wedi gwneud y cysylltiad rhwng y cyfeiriad at Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ym mharagraff cyntaf y rhaglith a'r cyfeiriad at y Ddeddf honno yn ail baragraff y rhaglith yn fwy eglur. Fodd bynnag, yn seiliedig ar gyd-destun y rhaglith yn ei chyfanrwydd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ystyr "y Ddeddf" yn ddigon clir.

**Pwynt craffu technegol 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 eisoes wedi eu diffinio fel "Deddf 1972" a "Deddf 2000" yn y drefn honno yn nhestun presennol rheoliad 2 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Fodd bynnag, nid yw cyfeirio at y ddwy Ddeddf hyn wrth eu henwau llawn yn y diffiniad o "swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol" sydd wedi ei fewnosod yn creu unrhyw ddryswch, ac mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y geiriau yn cyflawni'r effaith a fwriedir.

**Pwynt craffu technegol 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad yw'r rhestr o ddiffiniadau ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen i destun Cymraeg Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 yn y drefn gywir o ran yr wyddor (oherwydd bod "*eich awdurdod*" yn y lle anghywir), a'i bod yn ymddangos bod y diffiniad o "cymdeithas gofrestredig" ("*registered society*") ar goll o'r testun Cymraeg ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen i Orchymyn 2008 o ganlyniad i ddiwygiad a wnaed gan OS y DU.

Fodd bynnag, gellir mewnosod y diffiniad o "*nodweddion gwarchodedig*" yn y rhestr o hyd ac nid ystyrir y bydd y dull a ddefnyddir yn achosi problemau i'r darllenydd.

O ystyried y problemau yn y rhestr bresennol o ddiffiniadau yn y Gymraeg ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen i Orchymyn 2008, bydd yn cael ei adolygu fel rhan o waith parhaus Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Fframwaith Safonau Moesegol Llywodraeth Leol yng Nghymru.

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/JB/01001/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

11 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

Ysgrifennaf i'ch hysbysu fod cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru wedi'i gynnal ar 30 Hydref 2025, dan gadeiryddiaeth Llywodraeth yr Alban.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol sy'n crynhoi'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod, gyda dolen i'r Cyd-hysbysiad cytunedig. Mae e wedi'i gyhoeddi yn: Interministerial Group for Elections and Registration Communique: 30 October 2025 - GOV.UK (dolen allanol Saesneg yn unig).

Yn gywir,

Jayne Bryant

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Llywodraeth Cymru

12 Rhagfyr 2025

Annwyl Huw a Julie,

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 - Cyfiawnder

Nodwn eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd 2025 a ddarparodd ragor o wybodaeth am gynlluniau cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfiawnder, i gefnogi amcanion hyrwyddo datganoli cyfiawnder a diwygio Tribiwnlysoedd Cymru.

Gweler sylwadau'r Pwyllgor ar eich ymateb isod.

Cyllideb gyffredinol ar gyfer Cyfiawnder

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn siomedig gyda'r wybodaeth a gafwyd ar wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, sydd, fel gyda chyllideb y llynedd, yn parhau i fod yn llai cynhwysfawr na mewn blynyddoedd blaenorol. Er ein bod yn cydnabod y problemau a achosir gan ddadgyfuno'r ffigurau, teimlwn nad oes digon o wybodaeth ar gael i ganiatáu inni graffu'n ystyrlon ar y dyraniad yn y maes hanfodol hwn.

Yn ein hadroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru "nodi pa waith y mae wedi'i wneud hyd yma i ymchwilio i ffyrdd y gall wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu am wariant ynghylch gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, a pha waith y mae'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol yn y maes hwn".

Yn eich ymateb, gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad a darparu rhywfaint o wybodaeth.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae'n drueni nad yw'n ymddangos bod llawer o gynnydd wedi'i wneud, fel bod eich safbwynt yn ymddangos fel petai wedi aros yr un fath, gyda fawr ddim gwybodaeth fanwl wedi'i darparu. Gobeithiwn y bydd y safbwynt hwn yn newid yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod pethau'n agored ac yn dryloyw.

Nodwyd ein siom ynghylch y dull a fabwysiadwyd o nodi gwariant ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Pwyllgor.

### Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

Rydym yn croesawu'r manylion ychwanegol a ddarparwyd ar raglenni sy'n cael eu cyflwyno mewn perthynas â'r rhaglen hon. Nodwn nad oes unrhyw wariant cyfiawnder ar y cyd, wedi'i gynllunio, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gyfer 2026-27.

### Tribiwnlysoedd Cymru

Nodwn y cyllid refeniw ychwanegol cymedrol a ddyrannwyd i wasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru, ynghyd â'r £350k o gyllid cyfalaf ar gyfer system rheoli achosion newydd, yn ogystal â'r cyllid refeniw i gefnogi'r newid hwn. Dywedodd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wrth y Pwyllgor yn gynharach yr wythnos hon ei fod yn falch gyda'r cyllid ar gyfer system rheoli achosion a nododd y byddai'n rhoi'r modd i'r gwasanaeth wneud yr hyn a ganlyn:

> *" (...) monitor our work, to deal with our work more efficiently, and also to obtain data that would enable us, going forward, to have a much better handle on our work and how best it can be dealt with."*

Mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon ynghylch yr oedi wrth gyflwyno Bil i ddiwygio gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n Fil y mae Llywydd y Tribiwnlysoedd yn ei ddisgrifio fel rhywbeth hanfodol i gynnydd system gyfiawnder effeithlon ac effeithiol yng Nghymru. Yn ein sesiwn dystiolaeth dywedodd wrthym bod yr oedi'n anffodus, ac nad yw'n glir i ni sut mae dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn helpu Tribiwnlysoedd Cymru i baratoi ar gyfer unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol.

### Hygyrchedd cyfraith Cymru

Fel gyda'n pwynt cyffredinol ar ddadgyfuno'r gyllideb Cyfiawnder, rydym yn siomedig nad ydych wedi darparu rhagor o wybodaeth am ddyraniadau i gefnogi'r nod o wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Yn ein hadroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, gofynnwyd am esboniad ynghylch y diffyg manylion ar y gwariant arfaethedig yn y maes hwn, a darparwyd hynny. Mae'n anffodus ein bod ni yn yr un sefyllfa unwaith eto.

Casgliad

Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25, gwnaethom fynegi siom ei bod yn ymddangos nad yw Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu gwaith ar faterion cyfiawnder yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r dull yr ydym yn credu bod Llywodraeth Cymru nawr yn ei gymryd, o ran nodi gwariant ar faterion sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, yn symptomatig o'r dadflaenoriaethu hwnnw yr ydym wedi'i nodi.

**Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ei dull o ddadgyfuno gwariant ar gyfiawnder, gan nad oes digon o wybodaeth ar gael i'r Pwyllgor i gefnogi gwaith craffu ystyrlon ar y maes polisi pwysig hwn.**

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r llythyr hwn erbyn 28 Ionawr 2026.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Peredur Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir



Mike Hedges
Cadeirydd

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon